

Ym Mhrifysgol Bangor, rydym yn hoffi cwrdd â chymaint o'n hymgeiswyr â phosib. Er mwyn rhoi help llaw i chi gyda'ch costau teithio, rydym yn cynnig ad-dalu hyd at £30 mewn costau teithio i ymgeiswyr sy'n dod i Ddiwrnod Ymweld Ymgeiswyr UCAS. Os ydych yn teithio ar y trên, byddwn hefyd yn cyfrannu tuag at bris tocyn trên un gwestai hyd at uchafswm o £30.

Ydw i'n gymwys? Er mwyn cael cyfraniad tuag at eich costau teithio, bydd rhaid i chi gyflawni'r meini prawf canlynol:

- bod yn ymgeisydd am le ar gwrs israddedig fydd yn dechrau yn 2018 neu 2019
- bod yn bresennol mewn Diwrnod Ymweld Ymgeiswyr UCAS neu ymweliad unigol a drefnwyd ymlaen llaw

Sut ydw i'n hawlio fy nghostau teithio?

Mae'n syml, cewch ffurflen hawlio costau teithio yn eich pecyn croeso wrth gyrraedd. Gallwch lenwi a dychwelyd y ffurflen ar y diwrnod, neu ei hanfon yn ôl ar ôl yr ymweliad os yw'n well gennych wneud hynny. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r ffurflen, bydd staff ar gael i'ch helpu chi ar y diwrnod.

Faint fyddai'n ei gael?

Y mwyaf y gallwch ei hawlio yn ôl yw £30 i'r ymgeisydd (gweler y telerau a'r amodau llawn isod)

Telerau ac Amodau

1. Mae hawlio costau teithio yn gyfyngedig i un hawliad fesul ymgeisydd fesul diwrnod ymweld.
2. Teithio mewn car: Os ydych yn teithio i'r diwrnod ymweld mewn car, byddwn yn ad-dalu costau teithio o'ch cod post cartref i'r brifysgol ac yn ôl ar gyfradd o 9c y filltir, hyd at uchafswm o £30.
3. Ni allwn brosesu ceisiadau ar wahân ar gyfer gwesteion ymgeisydd sy'n teithio mewn car.
4. Teithio ar y trên: Ad-delir costau teithio ar drên os darperir tocynnau trên gwreiddiol a/neu dderbynebau sy'n dangos manylion y daith. Ad-delir tocynnau trên hyd at uchafswm o £30 fesul ymgeisydd a hyd at uchafswm o £30 i un gwestai sydd wedi dod gyda'r ymgeisydd. *Cofiwch gynnwys eich tocynnau trên ac unrhyw dderbynebau gyda'ch ffurflen gais am ad-daliad.* Os nad ydych yn gallu darparu eich tocynnau trên neu dderbynebau, byddwn yn ad-dalu costau teithio o'ch cod post cartref i'r brifysgol ac yn ôl ar gyfradd o 9c y filltir, hyd at uchafswm o £30 fesul ymgeisydd yn unig.
5. Rhaid cyflwyno ceisiadau am ad-daliad cyn pen 30 diwrnod ar ôl yr ymweliad. Ni allwn ad-dalu unrhyw hawliadau a wneir 30 diwrnod ar ôl dyddiad eich ymweliad.
6. Gall ffurflenni sydd wedi eu llenwi'n anghywir neu'n anghyflawn achosi oedi yn y taliad.

Unrhyw gwestiynau?

Tîm Derbyniadau (Ymweliadau)
Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau
Prifysgol Bangor
Ffordd y Coleg
Bangor, Gwynedd
LL57 2DG
Ffôn: 01248 382118
E-bost: cah@bangor.ac.uk